Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Ebrill 2013
Rhifyn 195

Oedfaon y Sul

2 Ebrill - Bore: **Y Parchg Athro Gwilym H. Jones**
Hwyr: (5pm): **Uno yn Salem**

14 Ebrill - Bore a Hwyr: **Y Parchg Ddr Elfed ap Nefydd Roberts, Wrecsam**

21 Ebrill - Bore a Hwyr: **Gweinidog**
Gweinyddir y Sacrament o Fedydd yn oedfa'r bore

28 Ebrill - Bore a Hwyr: **Y Parchg Megan Williams**

1 Mai - Bore a Hwyr: **Gweinidog**
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd yn oedfa'r bore

Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler tudalen Eglwys Seilo ar

www.henaduriaetharfon.org

Digwyddiadau Mis Ebrill

Nos Iau 18 Ebrill (7pm): **Cymdeithas Chwiorydd Henaduriaeth Arfon** yn Seilo. Sgwrs am 'Fugeiliaid y Stryd' gan Dr Paul Rowlinson. Bydd yno Fwrdd Gwerthu. Croeso cynnes i bawb.

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)
Y Gell Weddi - bob dydd Iau (10.30am)

Wythnos Cymorth Cristnogol
12 - 18 Mai 2013

Am Eiliad

Clywais gyfweliad ar y radio yn ddiweddar rhwng Richard Moss ac Antony Penrose, mab y ffotograffydd enwog, Lee Miller, ar achlysur rhyddhau nifer helaeth o'i lluniau ar y rhyngrwyd. Roedd hi'n ffotograffydd enwog a dylanwadol yn ei dydd, wedi tynnu lluniau nifer o enwogion ei chyfnod, megis Pablo Picasso a Paul Éluard, ac mae llun enwog o Lee Miller yn ymolchi ym maddon Adolf Hitler! Yn ogystal â bod yn un o brif ffotograffwyr y cylchgrawn merched 'Vogue', bu hefyd yn gweithio fel gohebydd i fyddin yr Unol Daliaethau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Arweiniodd y dyletswyddau hynny hi i wersylloedd Buchenwald a Dachau, a bu'n tynnu lluniau plant yn marw mewn ysbyty yn Awstria a gwerin Hwngari yn marw o newyn yn y blynyddoedd a ddilynnodd y rhyfel. Cafodd y golygfeydd hyn effaith andwyol ar ei hiechyd, ac threuliodd ddiwedd ei hoes mewn stâd o iselder ysbryd difrifol.

Treuliodd ei blynyddoedd olaf yn Mhrydain yn byw mewn ffermdy, lle ceir amgueddfa o'i gwaith. Flynyddoedd wedi ei marwolaeth canfu ei mab filoedd o'i lluniau wedi eu cadw yn ofalus yn atig y tŷ, a rhyfeddodd at yr amrywiaeth a'r cyferbyniad rhwng yr hardd a'r hagr a oedd ynddynt. Sut gallai'r un pâr o lygaid, gofynnodd, fod wedi gweld cymaint o harddwch a chymaint o hagrwch?

A dyma hyn yn fy arwain at stori fawr y Pasg lle cawn ddigwyddiadau erchyll yr Wythnos Fawr yn arwain at ddydd Gwener y Groglith, a phrydferthwch digwyddiadau'r Trydydd Dydd yng Ngardd yr Atgyfodiad. Y bradychu a'r gwadu gan Jiwdas a Phedr, yr holi diddiwedd gan Caiaffas a Pheilat, y chwipio didrugaredd a'r gwawdio brwnt, ac yna'r maddeuant a'r cariad a'r gobaith; y cyfan oll yn rhan o'r un stori.

Ac onid yw bywyd yn ddieithriad yn gymysgfa o dristwch a llawenydd, o ddagrau a chwerthin, o siomedigaeth a gobaith? A doedd neb a wyddai hynny'n well na Iesu Grist. Profodd lawenydd wrth dderbyn plant i'w bendithio, a phofodd loes profedigaeth wedi i'w gyfaill Lasarus farw. Cafodd ei siomi a'i frifo gan anwadalwch ac anffyddloneb ei gyd-Iddewon, a chafodd ei wefreiddio gan weithred brydferth Mair yn tywallt yr ennaint gwerthfawr am ei ben.

Mae cyfrolau dirifedi wedi eu hysgrifennu gan ddiwinyddion blaengar ym mhob cyfnod yn ceisio rhoi ystyr i'r Iawn ar Galfaria ac i wyrth y Trydydd Dydd. Ond mentraf awgrymu nad oes yr un diwinydd erioed wedi deall y naill na'r llall yn llawn, a hynny oherwydd bod gweithredoedd rhyfeddol Duw yn rhy fawr i'r meddwl dynol, pa mor glyfar bynnag y bo dyn. Ond gwn un peth, sef nad oes yr un profiad pa mor erchyll bynnag y bo, nad yw Duw yn Iesu Grist yn abl i gydymdeimlo ag o, a hynny oherwydd i Iesu ar ddydd Gwener y Groglith, blymio i ddyfnderoedd y dioddefaint mwyaf erchyll a welwyd erioed. A'i addewid i ni, yr ochr yma i'r Pasg, ydi y bydd o gyda ni yn ei Ysbryd bob amser, beth bynnag fo'n hamgylchiadau, yn cysuro ac yn cynnal, yn calonogi ac yn adfywio yn awr ac am byth. Rhown y gair olaf i un o brif emynwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Frances R Havergal, a chyfieithiad J.D.Vernon Lewis o un o'i hemynau mawr:

Gwawr wedi hirnos, cân wedi loes,
nerth wedi llesgedd, coron ' r ôl croes;
chwerw dry'n felys, nos fydd yn ddydd,
cartref 'r ôl crwydro, wylo ni bydd.

Gwenda Richards

Coffâd

Mrs Gwenllian Jones, 24 Tyddyn Llwydyn.

Roedd Gwen yn berson hoffus ac addfwyn, yn garedig ac yn barod ei chymwynas bob amser. Fe rannodd ei chariad yn hael hefo'i theulu a'i ffrindiau. Gwraig ei milltir sgwâr oedd hi, yn fodlon yng nghwmni ei theulu. Bu'n ffyddlon i oedfa'r bore yn Seilo ar hyd y blynyddoedd. Ymdrechodd yn galed dros gyfnod o waeledd blin. Cydymdeimlwn ag Arthur a'r plant a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mrs Eirianwen Jones, (Telynores Eirian), Gilfach, Parc Muriau

Cofiwn yn annwyl iawn am Mrs Eirian Jones fel gwraig ddiwylliedig a diddorol ei sgwrs. Diolchwn am ei diffuantrwydd, ei siriol deb a'i haddfwynder. Bu'n aelod ffyddlon yn Seilo a bu'n fraint bod yn ei chwmni. Cydymeimlwn â Mr Emyr Jones, ei phriod, a'i deulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â **Mrs Mair Evans,** Gwynle, Ffordd Bethel, yn ei phrofedigaeth o golli i brawd yn ddiweddar. Roedd Evan Parry yn Gymro o'i gorun i'w sawdl ac yn gymwynaswr mawr i'w fro, ac yn ei angladd traddododd Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) deyrnged haeddiannol iawn iddo.

Dymunwn nerth Duw i'r teuluoedd yn eu galar a'u hiraeth.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb a fu'n wael yn ystod y mis. Bu **Mr Maldwyn Fretwell,** 5 Stâd Glanrafon, Bontnewydd, yn Ysbyty Gwynedd, ac mae **Mr Emyr Jones,** 1 Llys yr Orsedd, Priestley Road, yn parhau i fod yn Ysbyty Eryri.

Bedydd

Daeth cynulledfa niferus i eglwys Seilo ar fore Sul y Pasg a chafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad y gweinidog, y Parchedig Gwenda Richards. Gweinyddiwyd y sacrament o Swper yr Arglwydd a bedyddiwyd **Alys Grug**, merch fach Non Gwenllian a David Gareth Jones, 8a Gerddi Menai, Caernarfon. Cyflwynwyd y dystysgrif fedydd i'r rhieni gan Meleri Thomas. Yr organydd oeddd Geraint Clwyd Jones. Llongyfarchwn y teulu gan ddymuno bendith ar eu haelwyd.

Aelodau Newydd

Hyfrydwch yw croesawu tri aelod newydd i Seilo. Athrawes wedi ymddeol yw **Miss Elizabeth Davies** ac mae'n byw yn 1 Glan y Môr. Mae **Mrs Nia Ann Hughes** yn byw yn Y Fedwen, 1 Llys Meirion ac mae'n fam i ddau o blant, Osian ac Elain; ac yn 30 Glan Seiont y mae **Manon Hughes Parry** a'i mab Gwydion Siôn yn byw. Dymunwn fendith ar eu haelodaeth ac edrychwn ymlaen at eu cwmni yng ngweithgareddau'r eglwys.

Pwdin a Phanad

Cafwyd noson ysgafn a chartrefol yn Theatr Seilo nos Fawrth, 18 Mawrth, wrth i bawb fwynhau pwdin blasus a chyngerdd i ddilyn gan blant yr eglwys. Gan fod nifer o'r plant wedi cystadlu yn eisteddfod Gylch a Sir yr Urdd, cawsant gyfle i adrodd, dawnsio ac actio yn ogystal â chyflwyno eitemau offerynnol. Roedd gweld yr amrywiaeth o bwdinnau yn ddigon i dynnu dŵr o ddannedd pawb a diolchir i'r chwiorydd am eu llafur a'u haelioni arferol. Bydd yr elw o £477 yn cael ei rannu rhwng yr Achos yn Seilo a gwaith yr ysgol Sul.

Llongyfarch

Brynhawn Sul, 31 Mawrth, derbyniwyd **Marian Wyn Jones,** Tan y Coed, Pen y Bryn, i swydd Uchel Siryf Gwynedd am y tymor 2013/14. Yr Is Siryf am yr un cyfnod yw **Iolo Thomas**. Caplan yr Uchel Siryf dros gyfnod ei gwasanaeth yw'r Parchedig Gwenda Richards.

Cafwyd Seremoni Datganiad hyfryd yn adeilad y Teras, Coleg Prifysgol Bangor dan arweiniad medrus Iolo Thomas, yr Is Siryf. Traddodwyd dau anerchiad byr, y naill gan y cyn Uchel Siryf, Edmund Seymour Bailey Ysw., a'r llall gan Marian Wyn Jones. Rhoddodd y naill amlinelliad o'i weithgareddau yn ystod tymor ei Uchel Siryfiaeth a nododd Marian Wyn Jones fel y mae gofynion swydd Uchel Siryf wedi newid yn ystod y canrifoedd a chyflwynodd ddarlun byw o'i dirnadaeth hi o'i rôl fel Uchel Siryf yn yr unfed ganrif a hugain.

Pleser o'r mwyaf fu gwrando ar Bedwarawd Llinynol Canolfan Gerdd William Mathias yn cyflwyno 'Pavanne' gan Fauré, a 'Chymysgfa Cymreig', trefniant gan Bill Connor.

Dymunwn yn dda i Marian a Iolo wrth iddynt gychwyn ar flwyddyn brysur a diddorol.

Cymdeithas Lenyddol Seilo

Daeth tymor y Gymdeithas Lenyddol i ben pan gyfarfu nifer dda o'r aelodau i ddathlu Swper Gŵyl Dewi nos Lun 5 Mawrth yn y Clwb Golff yng Nghaernarfon. Croesawyd pawb yno gan y Cadeirydd, Dr Huw Roberts, ac offrymwyd y gras bwyd gan y Parchedig Gwenda Richards. Cafwyd cinio gwerth chweil wedi ei baratoi gan Enid a'r criw. Mwynhaodd pawb y wledd a'r baned a'i dilynnodd.

Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Ddr Huw John Hughes, a chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ganddo am y blodyn bach gwyn a welir yn ystod misoedd y gaeaf, sef 'Blodyn yr Eira' neu'r 'Lili Wen Fach' - dau o blith degau o'r enwau a roddir iddo. Cyffelybodd nodweddion y blodyn i nodweddion bywyd y Cristion wrth iddo wynebu'r oerni yn wrol a sefyll yn gadarn gan blygi i bob storm. Diolchodd Mr Richard Morris Jones, is-lywydd y Gymdeithas, am sgwrs ddiddorol ac addysgiadol.

Y cyfarfod nesaf fydd trip i Ben Llŷn, yn dilyn 'ôl troed Howell Harris' yng nghwmni Mr John Dilwyn Williams o Benygroes. Ceir rhagor o fanylion maes o law.

Eurwen Williams

Gair o ddiolch

Dyna sy'n ddyledus i Mrs Eurwen Price Jones, 8 Stryd y Farchnad a Mr Harry Jones, Bodhyfryd, Ffordd y Gogledd, y ddau wedi rhoi blynyddoedd lawer o wasanaeth i'r Eglwys fel dosbarthwyr y Bont. Diolch yn fawr iawn i chi eich dau, a diolch hefyd i Mrs Edwina Morgan a Mr Iolo Thomas am dderbyn y cyfrifoldeb o hyn ymlaen.

Diolch

Dymuna Dorothy Jones, Isgraig, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn dilyn ei chyfnod yn yr ysbyty.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn Ebrill 20 fed.

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435
Golygydd: Mrs Angharad Williams 674865